

Trefniadau Iechyd Gofal Parhaus – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2016A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae adran 45 o'r cod yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cefndir

Cefndir	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6

Adroddiad manwl

Mae gwendidau mewn llywodraethu a goruchwyllo wedi arwain at aneffeithlonrwydd, amrywiad a thensiynau wrth reoli GIP, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gwella	9
--	---

Er bod rhywfaint o fudd wedi dod o'r gwaith o ailstrwythuro timau GIP yn 2018, roedd y diffyg cydgysylltu a rheoli canolog wedi effeithio ar allu timau GIP i weithredu'n effeithiol	9
--	---

Nid yw trefniadau ehangach i gefnogi rheolaeth barhaus ar ofal iechyd wedi'u datblygu'n llawn	13
---	----

Mae perfformiad GIP yn amrywiol, ac nid yw gwybodaeth am ansawdd yn ddigonol; fodd bynnag mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu rhaglen wella uchelgeisiol	18
--	----

Atodiadau

Atodiad 1 – cynllun gweithredu	25
--------------------------------	----

Adroddiad cryno

Cefndir

- 1 Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP) yn becyn gofal a ddarperir gan y GIG ar gyfer yr unigolion hynny ag anghenion iechyd sylfaenol¹. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod GIP yn cael ei ddarparu i oedolion cymwys a bod Gofal Parhaus yn cael ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc cymwys².
- 2 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad a chynghor i Fyrddau Iechyd ar GIP. (Y Fframwaith Cenedlaethol) yn nodi proses orfodol ar gyfer y GIG, gan weithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol, i asesu anghenion iechyd, penderfynu ar gymhwysedd a darparu gofal priodol. Mae llawer o adnoddau hefyd wedi'u datblygu i gefnogi cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol, er enghraifft Offeryn Cefnogi Penderfyniadau sy'n cefnogi proses asesu GIP.
- 3 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn nodi ei ddisgwyliadau gan Fyrddau Iechyd Lleol wrth reoli GIP, fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: Disgwyliadau Sefydliadol ar gyfer GIP

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am:

- sicrhau y caiff y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG ei gymhwyso'n gyson;
- hybu ymwybyddiaeth o GIP
- rhoi arfer da ar waith a'i gynnal, gan sicrhau y caiff safonau ansawdd eu cyrraedd a'u cynnal;
- darparu'r hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen ar ymarferwyr;
- nodi'r problemau sy'n codi o ran darparu GIP a gweithredu arnynt;
- llywio trefniadau comisiynu, ar sail strategol ac unigol;
- sicrhau y dilyni'r arfer gorau wrth asesu a chadw cofnodion; a
- darparu arweinyddiaeth strategol a datblygu'r sefydliad a'r gweithlu, a sicrhau bod systemau lleol yn gweithio'n effeithiol ac yn gwella perfformiad.

(Fframwaith Cenedlaethol GIP)

- 4 Yn 2019-20, gwariodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr £106.2 miliwn ar GIP. Roedd hyn yn gynydd o oddeutu 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Costau GIP y pen o'r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) oedd yr ail uchaf o unrhyw fwrdd iechyd yng Nghymru yn 2018-19 ac mae gwariant GIP yn parhau i greu pwysau ariannol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.

¹ Mae GIP yn wahanol i 'Gofal Nyrsio a Ariennir' a ddarperir ar gyfer pobl mewn cartrefi nyrsio sydd angen cymorth nyrsio ond nad ystyrir eu bod yn gymwys i gael GIP.

² At ddibenion yr adolygiad hwn, mae'r defnydd o'r term GIP yn cyfeirio at Ofal Iechyd Parhaus i oedolion a Gofal Parhaus i blant a phobl ifanc.

- 5 Roedd yr adolygiad hwn yn asesu trefniadau rheoli'r Bwrdd Iechyd ar gyfer GIP ar y lefel gorfforaethol a gweithredol ac roedd yn cynnwys archwiliad o drefniadau rheoli ariannol a rheoli perfformiad a systemau gwybodaeth ategol. Ni wnaethom adolygu ansawdd proses gwneud penderfyniadau'r Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) na phaneli GIP y GIG h.y. a yw'r penderfyniadau a wnaed yn briodol. Roedd y ddau weithgaredd hynny y tu allan i gwmpas ein hadolygiad.
- 6 Cynhaliwyd ein hadolygiad yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2020 ac felly fe'i cynhaliwyd cyn cyhoeddi pandemig COVID-19. Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud sawl newid tymor byr i'w brosesau GIP mewn ymateb yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu proses Rhyddhau i Adfer ac Asesu newydd. Mae'r broses Rhyddhau i Adfer ac Asesu yn golygu bod gofal cleifion a allai fod yn gymwys i gael GIP yn cael ei ariannu'n llawn gan y Bwrdd Iechyd oherwydd bod asesiadau a phrosesau GIP arferol wedi'u hatal dros dro. Ar adeg ysgrifennu, roedd y Bwrdd Iechyd yn aros am benderfyniad cenedlaethol ynghylch pryd y dylai'r broses GIP arferol aildechrau. Rydym yn rhagweld y gall yr adolygiad hwn ddarparu myfyrdodau defnyddiol a dysgu gwerthfawr i'r Bwrdd Iechyd wrth iddo ddechrau adfer prosesau GIP arferol.
- 7 Yn ddiweddar, mae Archwilio Cymru hefyd wedi cynnal adolygiadau o Bwysau ar Gyllideb a Chostau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Dinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.³ Edrychodd yr adolygiadau hyn ar sut mae'r Cynghorau'n comisiynu ac yn gweinyddu lleoliadau gofal cartref preswyl a nyrsio ac felly gallant ddarparu cyd-destun pellach ar rai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o gomisiynu cartrefi preswyl a nyrsio yn ystod 2020-21 a fydd yn cynnwys y Bwrdd Iechyd a phob un o chwe chyngor gogledd Cymru.

Negeseuon allweddol

- 8 At ei gilydd, mae ein gwaith wedi canfod bod gwendidau mewn llywodraethu a goruchwyllo wedi arwain at aneffeithlonrwydd, amrywiad a thensiynau wrth reoli GIP. Ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gwella.
- 9 Cyn 2018 roedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli GIP trwy un tîm bwrdd iechyd cyfan. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd y strwythur hwn yn meithrin digon o berchnogaeth o'r prosesau GIP gan staff gweithredol, yn enwedig mewn perthynas â rheolaeth gyllidebol. Felly, yn 2018 newidiodd y Bwrdd Iechyd strwythur ei dîm GIP, gan greu chwe is-dîm yn cwmpasu ardaloedd daearyddol, arbenigeddau ac agweddau corfforaethol ar reoli GIP. Fodd bynnag, wrth ddatrys un mater, roedd y strwythur newydd yn gwanhau'r gallu i gydlynu a rheoli gofal iechyd parhaus o'r canol. Mae'r gwendidau hyn wedi golygu bod rheolaeth GIP ers 2018 wedi esblygu

³ Disgwylir y bydd adolygiadau 'Pwysau ar Gyllideb a Chostau Gwasanaethau Cymdeithasol' yn cael eu cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru ym mis Hydref 2020.

mewn ffordd heb ei gynllunio ac wedi arwain at beth aneffeithlonrwydd a thensiynau achlysurol rhwng y gwahanol dimau GIP.

- 10 Gwelsom hefyd nad yw trefniadau corfforaethol ehangach y Bwrdd lechyd hyd yma'n cefnogi'r timau GIP datganoledig yn effeithiol. Mae cyfleoedd i ddatblygu adroddiadau ariannol mwy cyson, defnyddio'r systemau TG yn well a gwella prosesau mesur a rheoli perfformiad. Cododd staff bryderon sylweddol ynghylch gwendidau yn y broses o osod ffioedd ar gyfer cartrefi gofal sydd wedi bod yn achosi tensiynau rhwng partneriaid, cartrefi gofal a chleifion a'u teuluoedd. Yn ddiweddar, cytunodd y Bwrdd lechyd i gynyddu'r ffioedd a delir i gartrefi gofal i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- 11 Yn olaf, gwelsom berfformiad amrywiol ar draws timau ardal GIP a'r is-adran iechyd meddwl.⁴ Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y Bwrdd lechyd, ers hydref 2019, wedi bod yn datblygu rhaglen wella uchelgeisiol. Os gellir rhoi digon o fomentwm iddi, dylai'r rhaglen wella hon helpu i fynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.
- 12 Manylir ar yr argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 2**. Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i'r argymhellion hyn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 1** unwaith y bydd y pwyllgor perthnasol yn ei ystyried.

Argymhellion

Arddangosyn 2: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r wyth argymhelliad o'n hadolygiad.

Argymhellion

Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu ystod o ddogfennau llywodraethu perthnasol a hygyrch ar gyfer rheoli GIP

- A1 Gan adeiladu ar y Fframwaith cenedlaethol newydd (pan gaiff ei gyhoeddi) ac offer ategol, dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu set o ddogfennau canllaw allweddol i sicrhau rheolaeth gyson ar GIP ar draws ei dimau. Yn ogystal, dylai'r Bwrdd lechyd hefyd ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol sy'n arwain aelodau'r tîm i ddefnyddio rhai offer GIP fel y rhestr wirio.

⁴ Nid ydym yn gwneud sylwadau ar ansawdd gwasanaethau GIP dan contract a gwasanaethau a gomisiynwyd oedd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

Argymhellion

Dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno rhaglen hyfforddi gyson a hygyrch ar gyfer aelodau tîm GIP a'r rhai sy'n ymwneud â GIP

A2 Yn dilyn datblygu canllawiau newydd y manylir arnynt yn **A1** ynghyd â chyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol newydd (pan gaiff ei gyhoeddi), dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu rhaglen hyfforddi gyson a hygyrch ar gyfer aelodau tîm GIP a'r rheini sy'n ymwneud yn rheolaidd â GIP (h.y. aelodau o'r Tîm Amlddisgyblaethol). Wrth ddatblygu'r rhaglen, gallai'r Bwrdd lechyd ymgysylltu'n ddefnyddiol â phartneriaid allweddol fel awdurdodau lleol a darparwyr.

Dylai'r Bwrdd lechyd gynyddu cysondeb ei strwythurau tîm GIP a sicrhau bod rolau'n cael eu cyfleu a'u deall yn glir

A3 Dylai gwaith y Bwrdd lechyd i yrru cysondeb yn strwythur ei dimau ardal/is-adrannol ac is-adrannau GIP gweithredol gynnwys gwaith i sicrhau bod disgrifiadau swydd yn adlewyrchu'r rolau sy'n ofynnol ac yn cael eu mynegi a'u deall yn glir gan aelodau tîmau ardal/is-adrannol GIP presennol a newydd.

Dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno gweithdrefn uwchgyfeirio ffurfiol ar gyfer datrys anghydfodau GIP rhwng ei dimau

A4 Dylai'r Bwrdd lechyd ffurfioli a gweithredu trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer anghydfodau GIP ar gyflymder. Dylai fod gweithdrefn glir y mae staff perthnasol yn ei deall yn eang ac un y gellir ei defnyddio i ddatrys anghydfodau mewnol yn gyflym fel y rhai sy'n ymwneud â pha dîm ddylai gymryd y cyfrifoldeb cyllidebol am gleifion GIP.

Dylai'r Bwrdd lechyd geisio buddsoddi a datblygu ei dîm contractio a chomisiynu GIP

A5 Nid yw rôl y Bwrdd lechyd fel contractwr a chomisiynydd GIP wedi'i datblygu'n ddigonol sy'n achosi aneffeithlonrwydd a thensiynau ymhlith ei staff a'i ddarparwyr. Dylai'r Bwrdd lechyd ailafael yn y gwaith a ddechreuodd yn 2019 i ddatblygu tîm contractio a chomisiynu GIP gyda'r capasiti a'r gallu i gynllunio a darparu GIP yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Argymhellion

Dylai'r Bwrdd Iechyd gael adroddiadau cyson ar draws ei dimau GIP i'w alluogi i nodi arferion da a chyfleoedd dysgu

A6 Mae'r tîm cyllid yn darparu ystod o wahanol adroddiadau ar gyfer pob tîm ardal ac is-adrannol GIP gweithredol sy'n cynhyrchu mewnwelediadau gwahanol ar berfformiad a gwariant. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd nodi meysydd arfer da neu gyfleoedd dysgu rhwng timau. Nid yw metrigau ansawdd ar gyfer GIP wedi'u datblygu'n ddigonol ychwaith. Gyda chydlynau a goruchwyllo canolog, dylai timau ac is-adrannau GIP Gweithredol weithio gyda'i gilydd i archwilio a chytuno ar set o fetrigau ansawdd, ariannol a pherfformiad i reoli GIP yn effeithiol ac yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd.

Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei dimau GIP yn defnyddio'r system TG BroadCare yn effeithiol ac yn gyson

A7 Nid yw'r system TG BroadCare ar gyfer rheoli cleifion GIP yn gweithredu'n effeithiol eto yn y Bwrdd Iechyd oherwydd gwendidau yn ei weithrediad, diffyg hyfforddiant a diffyg cefnogaeth weinyddol. Er mwyn cynyddu gwerth y system wrth reoli GIP i'r eithaf, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- fynd i'r afael â'r ôl-gronid o gofnodion anghyflawn trwy gapasiti tymor byr ychwanegol;
- sicrhau bod y system wedi'i sefydlu'n gywir ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gyda therminoleg y system yn cyfateb i derminoleg y broses GIP;
- sicrhau bod timau GIP wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar ddefnyddio'r system; a
- sicrhau bod y tîm cyllid corfforaethol yn defnyddio'r system yn effeithiol.

Dylai'r Bwrdd Iechyd ffurfioli arweinyddiaeth o fewn y tîm GIP corfforaethol

A8 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gryfhau arweinyddiaeth o fewn ei dîm GIP corfforaethol yn ystod 2019, mae'r trefniadau hynny ar sail dros dro ar hyn o bryd.

Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio datblygu arweinyddiaeth tymor hwy i sicrhau gwelliant a goruchwyliaeth ganolog gadarn o'i reolaeth GIP.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

Adroddiad manwl

Mae gwendidau mewn llywodraethu a goruchwyllo wedi arwain at aneffeithlonrwydd, amrywiad a thensiynau wrth reoli GIP, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gwella

Er bod rhywfaint o fudd wedi dod o'r gwaith o ailstrwythuro timau GIP yn 2018, roedd y diffyg cydgysylltu a rheoli canolog wedi effeithio ar allu timau GIP i weithredu'n effeithiol

Fe wnaeth gwaith ailstrwythuro GIP yn 2018 greu gwell perchnogaeth adrannol ar gyfer gofal iechyd parhaus

- 13 Yn 2018 newidiodd y Bwrdd Iechyd strwythur ei dîm GIP, gan greu chwe is-dîm yn cwmpasu agweddau corfforaethol a gweithredol ar reoli GIP. Cyn hyn, roedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli GIP trwy un tîm, a gynhaliwyd gan un o'i dair 'ardal' ddaearyddol. Fodd bynnag, roedd y strwythur hwn yn achosi pryderon nad oedd staff gweithredol GIP yn cymryd perchnogaeth dros y broses, yn enwedig o ran y gyllideb. Roedd hyn yn arwain at dwf sylweddol mewn costau.
- 14 Ar hyn o bryd mae'r timau GIP wedi'u strwythuro fel a ganlyn:
 - tri tîm 'ardal' gweithredol sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol dwyrain, canol a gorllewin gogledd Cymru sydd â chyfrifoldeb am gleifion GIP iechyd meddwl cyffredinol ac oedrannus;
 - tîm gweithredol iechyd meddwl sy'n cynnwys Gogledd Cymru i gyd;
 - tîm gweithredol gwasanaethau plant sy'n cynnwys Gogledd Cymru i gyd; a
 - tîm corfforaethol, sy'n ymdrin ag agweddau fel hyfforddiant ac adolygiadau ôl-weithredol o hawliadau.
- 15 Roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n gwaith maes o'r farn yn gyffredinol bod datganoli rheolaeth GIP i dimau mwy lleol wedi bod yn bositif. Er enghraifft, mae consensws barn bod staff y tîm gweithredol yn cymryd mwy o berchnogaeth dros broses a chyllideb GIP o dan y strwythur newydd. Mae gan dimau gweithredol hefyd y fantais o gael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal a gallant wneud defnydd effeithiol o berthnasoedd a ddatblygwyd yn lleol rhwng partneriaid, fel awdurdodau lleol a chartrefi gofal.

Mae cydgysylltu canolog cyfyngedig wedi caniatáu amrywiad diangen mewn prosesau a dyblygu ymdrech

- 16 O ran yr ailstrwythuro yn 2018, bwriad y Bwrdd Iechyd oedd y byddai gan y tîm GIP corfforaethol rôl hanfodol wrth sefydlu trefniadau cadarn sy'n galluogi rheoli GIP yn effeithiol ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae cyfrifoldebau tîm corfforaethol GIP yn cynnwys datblygu a monitro'r defnydd o ganllawiau'r Bwrdd Iechyd, gan ddarparu deunyddiau a chysiau hyfforddi angenrheidiol; goruchwyllo a rheoli'r broses apelio a rheoli hawliadau ôl-weithredol ar gyfer GIP.
- 17 Er gwaethaf y bwriadau hyn, mae'r tîm corfforaethol yn fach, ac mae capasiti'r tîm wedi bod dan fwy fyth o straen yn ddiweddar oherwydd secondiadau staff, absenoldeb salwch tymor hir a swyddi gwag parhaus. Mae ei ddiffyg capasiti wedi cyfyngu ar ei allu i gefnogi a chydlynu'r timau gweithredol. Mae'r tîm wedi bod yn canolbwyntio ar reoli adolygiadau ôl-weithredol ac ar nodi themâu dysgu o apeliadau a chwynion, ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu proses apelio newydd yn ddiweddar.
- 18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod sawl maes lle dylid cryfhau prosesau a rheolaeth GIP. Er enghraifft, mae'r defnydd o restr wirio GIP⁵ yn anghyson a gall hynny fod â chanlyniadau uniongyrchol i gleifion. Mae hyn yn cynnwys amrywiad yn y cyfnod y bydd timau'n ariannu gofal rhwng canlyniad rhestr wirio positif claf (h.y. mae angen gofal) a'r pwynt y mae'r Offeryn Cefnogi Penderfyniadau a'r panel GIP yn cytuno'n ffurfiol ar becyn GIP. Gallai gweithdrefnau gweithredu safonol ddarparu arweiniad defnyddiol yn y modd hwn.
- 19 Rydym yn ymwybodol bod rhai timau gweithredol wedi cymryd camau i gryfhau eu llywodraethu eu hunain, fel y tîm GIP Iechyd meddwl yn cryfhau rheolaethau trwy ddatblygu ei fframwaith gweithredol. Er y gallai camau o'r fath arwain at weithio mwy effeithiol i dimau unigol, mae absenoldeb llywodraethu ar draws timau yn destun pryder. Gall hyn ganiatáu amrywioldeb ac arfer nas dymunir ar draws y sefydliad (**Argymhelliad 1**).

Mae timau gweithredol wedi datblygu mewn ffordd ad hoc ac maent bellach yn amrywio o ran maint, statws a phrofiad, gan adlewyrchu lefelau buddsoddi gwahanol ar draws meysydd

- 20 Roedd pob un o'r timau GIP gweithredol yn fach yn dilyn newidiadau i strwythur GIP yn 2018. Ers yr amser hwnnw mae pob is-adran wedi cymryd camau i gynyddu maint a newid strwythurau eu timau.
- 21 Er bod rhai timau wedi gallu sicrhau buddsoddiad o fewn eu his-adrannau yn gyflym ac yn gymharol rwydd, mae eraill wedi cymryd agwedd fwy graddol ac wedi defnyddio cyllid dros dro fel y Gronfa Buddsoddi i Arbed a'r Gronfa Gofal

⁵ Yn ychwanegol at y Fframwaith Cenedlaethol a'r Offer Cefnogi Penderfyniadau y mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd eu defnyddio, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn argymhell defnyddio'r rhestr wirio GIP

Integredig. Mae hyn wedi arwain at wahaniaethau nodedig rhwng timau GIP gweithredol, er enghraifft:

- mae gan dimau nifer arwyddocaol amrywiol o rolau sylweddol a dros dro gan gynnwys rheolwyr, hwyluswyr gofal ac adolygwyr nyrsio;
- mae rhai timau wedi datblygu strwythurau lle mae'r aelodau'n arbenigo mewn gwahanol fathau o gleifion GIP lle nad yw eraill wedi gwneud hynny; a
- mae'r tîm iechyd meddwl wedi datblygu swyddogaeth Rhaglen Gofal lawn a Sicrwydd (RCAP) i reoli achosion gofal cost uchel o fewn eu carfan o gleifion.

Ni chydlynwyd y newidiadau hyn yn ganolog ac o ganlyniad mae'r strwythurau tîm unigol wedi esblygu'n annibynnol ar ei gilydd.

- 22 Yn draddodiadol mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio staff GIP trwy ddenu ymgeiswyr â chefnidir nyrsio. Fodd bynnag, esboniodd rhai o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw fod disgwyliadau o ran staff GIP yn fwy penodol. Er enghraifft, dylai staff hefyd allu dangos lefelau uwch o wytnwch a bod yn fedrus wrth reoli sgysiau anodd. Yn ogystal, yn dilyn y newidiadau strwythurol yn 2018 ni chafwyd gwerthusiad ffurfiol o swydd ddisgrifiadau i adlewyrchu gwahaniaethau gweithio mewn timau lleol. Dywedodd sawl un y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod eu rolau wedi newid yn sylweddol ond nad oedd eu swydd ddisgrifiadau wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau. O ystyried cymhlethdod a sensitifrwydd y broses GIP, mae risg bod y trefniadau cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â rolau a chyflawni cyfrifoldebau sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau a nodwyd yn ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd.
- 23 Fel rhan o gynlluniau gwella datblygol y Bwrdd Iechyd ar gyfer GIP (a drafodir ymhellach ym **mharagraffau 71-75**), mae'n bwriadu datblygu cynlluniau gweithlu ac ailwerthuso strwythur gweithredol ei dimau GIP. Ar adeg ein gwaith maes roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal gweithdai i ddatblygu strwythur tîm model ar gyfer GIP, gan ddefnyddio meincnodau galw am wasanaeth a chynhyrchedd. Mae'r gwaith hwn yn bwysig o ran cefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau capasiti, gallu a chysondeb priodol timau GIP y Bwrdd Iechyd (**Argymhelliad 3**).
- 24 Mae gwytnwch a sefydlogrwydd timau GIP y Bwrdd Iechyd yn bryder allweddol arall. Mae cyfraddau absenoldeb salwch a throsiant o fewn timau GIP y Bwrdd Iechyd yn gymharol uchel sy'n effeithio ar gapasiti a gwytnwch timau. Ar gyfer un o'r timau gweithredol ardal roedd yr aelod o'r tîm gyda'r gwasanaeth hiraf wedi bod yn ei swydd ers dwy flynedd. Mae hon yn risg arall i'r Bwrdd Iechyd o ran gwneud yn siŵr y gall sicrhau ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â GIP dros y tymor hir. Dylai cynyddu sefydlogrwydd a gwytnwch ei dimau ardal a'i is-adrannau GIP fod yn ystyriaeth allweddol o waith y Bwrdd Iechyd i ddatblygu cynlluniau gweithlu GIP.

Nid yw hyfforddiant GIP y Bwrdd lechyd yn addas at y diben eto

- 25 Mae'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer GIP yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid ddarparu mynediad at hyfforddiant priodol i staff sy'n ymwneud â GIP. Yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol yn 2014, bu'r Bwrdd lechyd yn cymryd rhan mewn grŵp hyfforddi ac addysg GIP rhanbarthol gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, ond nid yw hyn bellach yn digwydd. Yn dilyn hynny, datblygodd y tîm corfforaethol becyn hyfforddi ar gyfer aelodau tîm GIP. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau capasiti a phwysau llwyth gwaith wedi golygu mynediad cyfyngedig i'r hyfforddiant hwn. O ganlyniad, mae gwahanol dimau gweithredol wedi datblygu eu rhaglenni hyfforddi neu sefydlu eu hunain, sy'n cynnwys cymysgedd o gysgodi, arsylwi ac ymarfer gyda pheccynau anhysbys a ffug baneli. Mae'r amser y mae timau'n ei ddarparu i recriwtiaid newydd hyfforddi yn amrywio o ychydig ddyddiau i dri mis. Yn anochel, mae hyn yn golygu ei bod yn heriol ysgogi cysondeb ac effeithiolrwydd wrth reoli GIP ar draws y Bwrdd lechyd.
- 26 Yn ogystal, gellir atgyfeirio cleifion ar gyfer GIP o ystod o staff proffesiynol ac amrywiol amgylcheddau. Ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant cyffredinol ar GIP ar gael i staff sydd y tu allan i dimau GIP, fel nyrsys ward, er bod taflen wybodaeth ar rôl y Cydlynedd Gofal. Mae aelodau staff GIP y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod dryswch hirsefydlog ar draws y Bwrdd lechyd ynghylch rôl GIP, yn enwedig o ran sut mae'n cyd-fynd â'r darlun ehangach o lif cleifion, cynllunio ar gyfer rhyddhau ac ailalluogi. Mae anallu i gael mynediad at hyfforddiant yn enghraifft o gyfle a gollwyd i hysbysu ac addysgu aelodau staff yn llawnach sef staff sydd, gan eu bod yn eistedd y tu allan i'r timau GIP uniongyrchol, yn effeithio ar y broses GIP trwy eu hymglymiad â chleifion (**Argymhelliad 2**).
- 27 Er nad oes strategaeth hyfforddi ar gyfer GIP ar hyn o bryd, ar adeg ein gwaith maes roedd gan y Bwrdd lechyd uchelgais i ddatblygu strategaeth o'r fath ac roedd yn ystyried sut i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Er enghraifft, gall weithio gyda'i awdurdodau lleol partner i adfer grŵp hyfforddi ar y cyd ar ôl cyhoeddi'r Fframwaith cenedlaethol newydd. Gohiriwyd cyhoeddi'r Fframwaith newydd o ganlyniad i'r pandemig. Yng ngoleuni'r newidiadau a grëwyd gan bandemig COVID-19, mae hyd yn oed fwy o gyfle nawr i'r Bwrdd lechyd fyfyrion ar unrhyw newidiadau yr oedd yn eu hystyried yn rhai buddiol a gweithredu rhaglen hyfforddi ffurfiol a hygyrch sy'n cefnogi'r Bwrdd lechyd i wella ei brosesau GIP.

Er bod ymgysylltiad da rhwng y timau corfforaethol a gweithredol, mae enghreifftiau o densiynau sylweddol rhwng timau GIP gweithredol

- 28 Dywedodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw wrthym sut mae'r berthynas rhwng y timau GIP corfforaethol a gweithredol yn gweithio'n dda. Er ei fod wedi'i gyfyngu gan ei gapasiti, mae'r tîm GIP corfforaethol yn ceisio sicrhau ei fod ar gael i gefnogi'r timau gweithredol gydag ymholiadau ad hoc ac i ddarparu pwyntiau dysgu fel rhai o adolygiadau ôl-weithredol, apeliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

- 29 Fodd bynnag, clywsom enghreifftiau o densiynau sylweddol rhwng timau gweithredol a all arwain at anghydfodau mewnol. Achosir y rhain yn bennaf gan anghytundeb ynghylch pa dîm gweithredol ddylai gymryd prif berchnogaeth a chyfrifoldeb ariannol dros glaf GIP cymwys. Mae'r gwahanol gyllidebau a strwythurau sefydliadol ar gyfer pob tîm, ynghyd â phaneli GIP ar wahân wedi achosi anghytundebau ynghylch pa dîm/timau ddylai ariannu cleifion naill ai ag anghenion lluosog, h.y. iechyd meddwl ac iechyd corfforol, anghenion cost uchel neu gymhleth.
- 30 Yn y gorffennol mae anghydfodau mewnol wedi bod yn sylweddol ac wedi para am gyfnodau maith. Er bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus nad yw hyn yn effeithio ar ansawdd gofal, mae'n achosi rhwystredigaeth sylweddol rhwng staff. Mae'r tîm GIP corfforaethol yn aml yn ymwybodol o'r materion parhaus, ond nid oes ganddynt y pŵer i gymrodeddu anghydfodau, gan fod yn rhaid eu datrys rhwng is-adrannau (sy'n dal y cyllidebau penodol ar gyfer pob tîm). Mae absenoldeb polisïau fel llwybrau ar gyfer anghenion gofal penodol yn golygu nad oes llawer ar gael i arwain staff os bydd anghydfod. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu set o egwyddorion ar gyfer datrys anghydfodau. I ychwanegu at hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu proses uwchgyfeirio ffurfiol y gall staff ei chyrchu a'i chymhwyso i leihau tensiynau ac oedi wrth reoli GIP (**Argymhelliad 4**).

Nid yw trefniadau ehangach i gefnogi rheolaeth barhaus ar ofal iechyd wedi'u datblygu'n llawn

Mae prosesau gwneud penderfyniadau tîm amlddisgyblaethol yn dechrau cryfhau gyda'r nod o wella ansawdd eu hargymhellion

- 31 Mae gwaith y tîm amlddisgyblaethol yn rhan sylfaenol o'r broses GIP. Gall y tîm amlddisgyblaethol dynnu ar aelodau o sawl disgyblaeth broffesiynol fel meddygon, nyrsys, therapyddion a gweithwyr cymdeithasol. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn asesu cymhwysedd claf ar gyfer GIP, yn datblygu pecyn gofal i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ac yn cyflwyno argymhelliad i'r panel GIP i gymeradwyo neu herio'r argymhelliad. Mae'r timau amlddisgyblaethol yn cael eu harwain gan gydlynwyr gofal sy'n cydlynu'r broses asesu gyfan ar gyfer gofal tymor hwy, gan gynnwys casglu tystiolaeth i lywio'r penderfyniad ar gymhwysedd GIP.
- 32 Mae'n hanfodol bod gan dimau amlddisgyblaethol y capasiti a'r gallu i gyflawni'r rolau hyn yn effeithiol i sicrhau y gall cleifion cymwys dderbyn y gofal cywir yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn. Gall panel y GIP herio a gwrthod argymhellion tîm amlddisgyblaethol os bernir eu bod yn anghyflawn neu'n groes i'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn nodi, 'Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol ac am resymau a gaiff eu hesbonio'n glir y gall y BILI benderfynu peidio â derbyn argymhellion y tîm amlddisgyblaethol ar gymhwysedd i gael GIP'. Er bod mecanwaith i apelio yn erbyn dyfarniadau o'r fath ac i gyflwyno hawliadau ôl-weithredol, gall hyn beri gofid i'r claf a'r teulu ac mae'n gostus ac yn cymryd llawer o amser i'r Bwrdd Iechyd. Felly, dylai'r ffocws fod ar sicrhau bod y

penderfyniad cywir yn cael ei wneud y tro cyntaf. Dywedodd aelodau staff y Bwrdd lechyd wrthym fod nifer sylweddol o geisiadau GIP a gyflwynir gan dimau amlddisgyblaethol yn cael eu herio neu eu gwrthod yn rheolaidd gan baneli GIP. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod lle i wella ansawdd argymhellion y tîm amlddisgyblaethol i banel GIP yn ogystal â phrosesau cymhwysu'r meini prawf cymhwysedd GIP gan y panel o bosibl.

- 33 Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod fwyfwy bod yn rhaid iddo ddarparu mwy o gefnogaeth i'w dîm amlddisgyblaethol i sicrhau eu bod yn deall y broses GIP yn llawn, ac y bydd hynny, yn ei dro, yn sicrhau gwell ansawdd o ran y ceisiadau a dderbynnir gan y panel GIP. Mae rhai timau gweithredol wedi gweithredu trwy osod un o aelodau tîm GIP i ymddwyn fel arbenigwr i arwain trafodaethau timau amlddisgyblaethol, gan eu helpu i lywio'r Fframwaith cenedlaethol a fframweithiau cyfreithiol eraill. Mae gan y Bwrdd lechyd grŵp gwella GIP (gweler **paragraff 71**) a oedd, ar adeg y gwaith maes, yn gwerthuso'r dull hwn gyda'r bwriad o'i weithredu'n ehangach ar draws pob tîm ardal gweithredol.
- 34 Gwelsom hefyd fod rhai timau gweithredol GIP rhanbarthol yn ceisio ymgysylltu'n well â staff sy'n debygol o gael eu defnyddio fel cydlynwyr gofal trwy eu gwahodd i arsylwi trafodaethau timau amlddisgyblaethol a phenderfyniadau panel GIP. Dywedodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw fod y camau hyn yn gwella ansawdd ceisiadau GIP tra hefyd yn rheoli disgwyliadau cleifion a theuluoedd yn fwy effeithiol a phriodol nag o'r blaen. Fodd bynnag, fel y manylwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae cyfyngiadau o ran capasiti yn y timau GIP sydd wedyn yn cyfyngu ar argaeledd staff i ddarparu cefnogaeth.

Mae lle i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol wrth reoli GIP

- 35 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer GIP yn nodi'n glir y disgwyliad bod Byrddau lechyd ac Awdurdodau Lleol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar gyfer elfennau penodol o reoli GIP, fel penodi pecynnau gofal a ariennir ar y cyd, delio ag anghydfodau ffurfiol a chomisiynu ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio. Mae rheoli GIP yn effeithiol, mewn llawer o achosion, yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol rhwng y Bwrdd lechyd a'r Awdurdod Lleol, er enghraifft lle mae angen addasu tŷ ar gyfer claf cyn y gellir ei ryddhau o'r ysbyty.
- 36 Fel y disgrifir ym **mharagraff 7**, fel rhan o'n rhaglen waith archwilio ehangach, rydym wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o bwysau ariannol ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Sir Dinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r ddau adolygiad yn nodi rhai gwendidau mewn gweithio mewn partneriaeth a all achosi oedi wrth reoli gofal cleifion a thensiynau rhwng partneriaid, darparwyr a chleifion, gan gynnwys diffyg cyfathrebu ynghylch:
- canlyniadau penderfyniadau panel GIP;
 - newidiadau i gyfraddau'r cartrefi nyrsio y cytunwyd arnynt yn flaenorol rhwng partneriaid; ac

- y camau nesaf ar gyfer cleifion y canfyddir nad ydynt, yn dilyn adolygiad, bellach yn gymwys i gael pecynnau GIP.

Mae'r enghreifftiau hyn i raddau helaeth yn ganlyniad i gyfathrebu gwael neu araf rhwngartneriaid. Rydym yn ymwybodol bod y materion brys a achoswyd gan y pandemig COVID-19 wedi arwain at bartneriaid yn cyfathrebu'n rhagweithiol ac yn gyflym i sicrhau bod gan gleifion fynediad priodol ac amserol i GIP. Dylai'r Bwrdd lechyd adeiladu ar y gwaith hwn gyda phartneriaid i fyfyrion ar sut y gallant wella trefniadau cyfathrebu yn y tymor hir. Unwaith eto, mae hwn yn faes lle gallai arweiniad cyson a hyfforddiant hygyrch (fel y cyfeirir atynt yn **Argymhellion 1 a 2**) fod yn fuddiol.

Nid yw cefnogaeth comisiynu a chyllid i dimau GIP wedi'i ddatblygu'n ddigonol

- 37 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynghori Byrddau lechyd i fabwysiadu dull integredig o weithio gydag awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau GIP i 'fod â'r dylanwad mwyaf posibl ar ddatblygu'r ddarpariaeth.' Ar hyn o bryd nid yw'r Bwrdd lechyd yn comisiynu gwasanaethau trwy ddull cynlluniedig, ar y cyd, gan ddibynny yn hytrach ar brynu yn y fan a'r lle. Mae prynu yn y fan a'r lle yn cyfeirio at yr arfer o brynu i ddiwallu angen uniongyrchol. Mae'r arfer o brynu yn y fan a'r lle yn golygu bod y Bwrdd lechyd yn defnyddio arfer dwys o ran adnoddau nad yw'n gwarantu'r gwerth gorau am arian. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r Bwrdd lechyd wedi ceisio cefnogaeth yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) i nodi ffyrdd i'w gefnogi o ran comisiynu, cynllunio a gweithio gyda darparwyr. Yn ogystal, mae'r Bwrdd lechyd yn y broses o ddatblygu tîm Comisiynu a chanolfan cefnogi busnes, gyda'r bwriad o ddatblygu ei allu a'i brofiad comisiynu ymhellach.
- 38 Ym mis Mehefin 2019 defnyddiodd y Bwrdd lechyd gyllid Buddsoddi i Arbed i recriwtio Pennaeth Comisiynu wedi'i leoli yn y tîm GIP corfforaethol. Y bwriad oedd sefydlu tîm comisiynu wedi hynny. Fodd bynnag, oherwydd pwysau gyda rheolaeth y Bwrdd lechyd ar GIP a drafodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad fel timau angen cefnogaeth a chynghor ad hoc, gofynnwyd i'r Pennaeth Comisiynu penodedig ymgymryd â rôl rheoli dros dro ar gyfer y tîm corfforaethol. Mae hyn yn cynrychioli defnydd gwael o adnoddau gan nad yw'r Bwrdd lechyd yn defnyddio eu hadnoddau fel y cynlluniwyd i wneud gwelliannau ond yn hytrach mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio ar reoli arferion gweithredol cyfredol mewn ffordd adweithiol. Dylai'r Bwrdd lechyd ailafael yn y cynlluniau i ddatblygu capasiti a gallu comisiynu medrus ac ymroddedig (**Argymhelliad 5**).
- 39 Mae yna adnodd cyllid pwrpasol i gefnogi rheolaeth y Bwrdd lechyd ar GIP, fodd bynnag, mae ei gapasiti wedi'i ymestyn ers ehangu i chwe thîm GIP yn 2018. Mae timau gweithredol GIP yn nodi eu bod yn gyffredinol yn derbyn cefnogaeth dda gan y tîm cyllid. Mae'r tîm cyllid yn coladu data gweithgaredd a chost GIP mewn adroddiadau wythnosol, misol a chwarterol ond mae wedi datblygu cynnwys adrodd gwahanol ar gyfer gwahanol dimau sy'n canolbwyntio ar wahanol

agweddau ar berfformiad a gwelliant ariannol. Mae hyn yn arwain at golli cyfleoedd a fyddai'n deillio o ddulliau adrodd cyson ar draws timau, h.y:

- gellir rhannu meincnodi a pherfformiad i gefnogi dysgu; a
- byddai nifer llai o adroddiadau safonedig yn gwneud gwell defnydd o gapasiti'r tîm cyllid. Gallai hyn yn ei dro alluogi staff cyllid i gefnogi datblygiad gwasanaeth yn well.

Felly dylai'r Bwrdd lechyd gael adroddiadau cyson ar draws ei dimau GIP i'w alluogi i nodi arferion da a chyfleoedd dysgu (**Argymhelliad 6**).

Mae'r broses o osod ffioedd ar gyfer GIP yn achos tensiwn

- 40 Yn ogystal â chefnogaeth gan y tîm cyllid, mae'r timau GIP gweithredol hefyd yn derbyn cefnogaeth gan swyddogaeth rheoli contract. Mae hyn wedi helpu i osod safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, cytundebau monitro a gweithdrefnau uwchgyfeirio gydag awdurdodau lleol a chartrefi gofal. Nid yw pob cartref nyrsio wedi ymrwymo i'r cytundeb ac yn yr achosion hyn, bydd gan y tîm contractio lythyr cyllido yn ei le.
- 41 Cododd sawl aelod o staff y gwnaethom eu cyfweld bryderon hefyd am y broses o osod ffioedd gyda darparwyr gofal. Er bod y Bwrdd lechyd wedi canolbwyntio ar arbedion GIP, mae anfodlonrwydd cynyddol ymhlith darparwyr cartrefi gofal a gofal cartref gyda'r trefniant presennol ar gyfer gosod ffioedd. Mae hyn oherwydd ffactorau fel:
- nid yw'r incwm o'r Bwrdd lechyd ar gyfer cartrefi gofal wedi cynyddu gyda chyfradd chwyddiant ers sawl blwyddyn;
 - mae'r cyfraddau ar gyfer GIP, er eu bod yn aml yn gofyn am wasanaethau gofal dwys, yn is na chyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir sy'n cael eu talu gan yr Awdurdod Lleol. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau; a
 - mae rhai cartrefi gofal wedi codi ffioedd ar gyfer rhai elfennau o'u gwasanaeth, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'ffioedd atodol' na chytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd lechyd.
- 42 Mae'r materion hyn wedi achosi tensiwn sylweddol rhwng y Bwrdd lechyd, rhai darparwyr GIP a'u cleifion a'u teuluoedd sydd hefyd weithiau'n denu staff ward yn amhriodol i helpu i reoli'r mater hwn fesul achos.
- 43 Ar adeg y gwaith maes, roeddem yn ymwybodol bod y Bwrdd lechyd wedi cynyddu ymgysylltiad â phartneriaid i gytuno ar ffordd ymlaen sy'n darparu trefniant gosod ffioedd clir a theg y gall pob partner ymuno ag ef a'i gynnal. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau sylweddol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mewn ymateb i bwysau a achoswyd gan gam cyntaf y pandemig, cytunodd y Bwrdd lechyd ar godiadau i ffioedd cartrefi gofal. Yn 2020-21 roedd cynllunio ariannol ehangach y Bwrdd lechyd hefyd yn cynnwys codiadau tymor hir i ffioedd cartrefi gofal.

Nid yw'r system TG ar gyfer GIP yn cael ei defnyddio'n effeithiol eto, sy'n arwain at ddibyniaeth ar systemau llai gwydn

- 44 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system TG o'r enw BroadCare i reoli GIP. Mae'r system yn gweithredu fel cronfa ddata sy'n cadw gwybodaeth am y cleifion yn y broses GIP. Cyflwynwyd y system BroadCare yn y Bwrdd Iechyd yn 2018. Fodd bynnag, roedd rhai gwendidau yn y ffordd y gweithredwyd y system o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n parhau i effeithio ar ei defnyddioldeb.
- 45 Datblygwyd y system BroadCare yn wreiddiol ar gyfer GIG Lloegr ac fe'i defnyddir yn helaeth gan Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Felly roedd rhai nodweddion o BroadCare nad oeddent yn addas iawn i'r Bwrdd Iechyd oherwydd gwahaniaethau rhwng arferion gwaith a phrosesau GIP rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru. Ychydig o gydnabyddiaeth a roddwyd i'r materion hyn pan weithredwyd y system yn wreiddiol, ac nid oedd y gefnogaeth i weithredu'r system o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyfleoedd i hyfforddi staff, yn ddigonol, ac wedi'i chyfyngu i becyn hyfforddi undydd a mynediad at system brawf am dri mis. Ceisiodd y Bwrdd Iechyd fabwysiadu dull hyfforddi'r hyfforddwr, gan gynnwys datblygu dau uwch ddefnyddiwr BroadCare ymhob tîm gweithredol. Fodd bynnag, llwyddiant cyfyngedig a gafodd hyn gan fod y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn dweud bod diffyg capasiti i bobl ddysgu trwy ddefnyddio'r system. O ganlyniad, mae llawer o staff wedi datblygu eu dulliau eu hunain o ddefnyddio'r system, sydd wedi creu anghysondebau.
- 46 Pwrpas gweithredu BroadCare oedd darparu storfa ffeiliau a system adrodd sengl. Cyn BroadCare, roedd gwybodaeth am weithgaredd a gwariant GIP yn cael ei storio ar daenlenni Microsoft Excel. Fodd bynnag, er bod y system BroadCare wedi bod ar waith ers dros ddwy flynedd ar adeg ein hadolygiad, mae data sy'n ymwneud â gweithgaredd a chost yn parhau i gael ei reoli trwy daenlenni Microsoft Excel. Mae hyn oherwydd cofnodion anghyflawn yn BroadCare sy'n tanseilio dibynadwyedd a defnyddioldeb y system ar gyfer adrodd cywir a thaliadau. Mae'r tîm contractio wedi cael problemau oherwydd bod cofnodion cleifion yn system TG BroadCare yn anghyflawn sydd wedi achosi oedi cyn gwneud taliadau i ddarparwyr.
- 47 Roedd y rhai y buom yn siarad â nhw yn priodoli'r bylchau mewn gwybodaeth yn y system BroadCare i ffactorau fel:
- nid yw rhai staff yn deall yn iawn sut i ddefnyddio'r system;
 - nid yw'r system yn reddfal nac yn gydnaws â'u harferion gwaith; neu
 - diffyg capasiti gweinyddol i gwblhau cofnodion cyfredol a blaenorol.

48 Mae angen cywiro a glanhau'r data hanesyddol a sicrhau bod staff yn defnyddio'r system yn effeithiol fel nad yw'r problemau sy'n ymwneud ag ansawdd data yn digwydd eto. Mae Grŵp Gweithredol a Grŵp Gwella GIP yn ymwybodol o ac yn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r problemau hyn er mwyn gwneud y defnydd gorau o BroadCare ar draws ei swyddogaeth GIP. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn archwilio ffyrdd o integreiddio BroadCare â systemau data eraill y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio mynd i'r afael â'r materion hyn ar frys er mwyn gwella cadernid ei gofnodion cleifion ar gyfer GIP (**Argymhelliad 7**).

Mae perfformiad GIP yn amrywiol, ac nid yw gwybodaeth am ansawdd yn ddigonol; fodd bynnag mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu rhaglen wella uchelgeisiol

Mae rheoli a mesurau perfformiad yn gyfyngedig ac nid yw'r Bwrdd yn goruchwyllo perfformiad GIP yn rheolaidd, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer data cyfoethocach

- 49 Mae mecanweithiau ar gyfer monitro ac adrodd ar GIP ar lefelau gweithredol, lleol. Mae gan wahanol dimau GIP eu mecanweithiau eu hunain i fonitro ac adrodd ar eu perfformiad. Caiff rhywfaint o wybodaeth hefyd ei hadrodd i amrywiol grwpiau ac is-bwyllgorau'r Bwrdd trwy wahanol adroddiadau perfformiad. Mae mesurau perfformiad ar gyfer GIP yn y Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio'n bennaf ar:
- Gweithgaredd: nifer yr achosion, nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal, nifer yr adolygiadau, y rhai sy'n hwyr a thoriadau;
 - Cost: fesul pecyn, symudiad ers y cyfnod diwethaf a newidiadau i'r gwariant a ragwelir yn flynyddol yn erbyn y gyllideb (gan gynnwys effeithlonrwydd); a
 - Risgiau: gan gynnwys achosion lle mae anghydfod neu rai heb eu hadolygu gan y panel eto.
- 50 Mae'r Fframwaith GIP cenedlaethol yn nodi y dylai pob Bwrdd, ar lefel y Bwrdd, dderbyn gwybodaeth, gan gynnwys camau perthnasol a uwchgyfeiriwyd sy'n ymwneud â GIP ac y dylid rhannu adroddiadau perfformiad ag unrhyw fwrdd partneriaeth lleol ag awdurdodau lleol. Mae ein hadolygiad wedi canfod nad yw GIP ar hyn o bryd yn rhan gref o'r gwaith monitro perfformiad arferol gan y Bwrdd.
- 51 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau datblygu ei waith monitro perfformiad ar GIP i ddarparu data cyfoethocach a all ysgogi gwelliant. Er enghraifft, mae'r tîm GIP corfforaethol yn edrych ar ddangosyddion perfformiad allweddol GIP arfer da Lloegr i helpu i gryfhau ei wybodaeth mesur perfformiad a rheoli.


52 Yn ogystal, mae gan system TG BroadCare y swyddogaeth i ddarparu adroddiadau gwybodaeth fusnes. Ar adeg ein gwaith maes roedd tîm perfformiad y Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu dangosfwrdd sy'n tynnu ar ddata gweithgaredd, gwariant ac ansawdd o BroadCare, er y bydd hyn yn dibynnu ar BroadCare yn cadw cofnodion dibynadwy a chyflawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ei wybodaeth am brofiad cleifion yn parhau i fod yn absennol, a'i bod yn her casglu a chyflwyno gwybodaeth ansoddol o'r fath.

Mae gwariant GIP yn parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall

53 Fel y dengys **Arddangosyn 3**, cynyddodd gwariant ar GIP bob blwyddyn er 2016-17. Nid yw'r lefel hon o dwf yn debygol o fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Arddangosyn 3: gwariant blynyddol y Bwrdd Iechyd ar GIP

Mae'r arddangosyn isod yn dangos gwariant blynyddol y Bwrdd Iechyd ar GIP rhwng 2016-17 a 2019-20.




Ffynhonnell yw'r arddangosyn: Data'r Bwrdd Iechyd

54 Cymharodd ymarfer meincnodi rhwydwaith y GIG wariant a gweithgaredd GIP ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru rhwng 2016-17 a 2018-19. Awgrymodd yr ymarfer meincnodi mai'r Bwrdd Iechyd hwn sydd â'r nifer uchaf o gleifion fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2018-19, sef 389. Mae'n werth nodi bod rhai staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo nad oedd yr ymarfer meincnodi yn ystyrlon oherwydd gwahaniaethau canfyddedig yn y ffordd y mae Byrddau Iechyd yn mesur ac yn cofnodi gweithgaredd ar gyfer GIP.

55 Mae wedi bod yn ofynnol i dimau GIP gyflawni yn erbyn targedau arbed arian i fynd i'r afael â gwariant cynyddol y swyddogaeth. O ystyried y strwythur sefydliadol ar gyfer GIP, mae gan dimau gweithredol eu targedau arbed arian eu hunain, ac mae perfformiad a symudiad mewn gwariant yn amrywio'n sylweddol rhwng timau ardal gweithredol o un flwyddyn ariannol i'r llall, a ddangosir yn **Arddangosyn 4**. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod budd o adrodd arbedion mewn ffordd gyfunol ac mae bellach yn nodi themâu cyffredin y gall meysydd eu cymharu a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Arddangosyn 4: symudiad ardaloedd gweithredol mewn gwariant, 2017-2020



Ffynhonnell yr arddangosyn: Data'r Bwrdd Iechyd.

56 Er bod gan dimau GIP dargedau arbed arian unigol, nid yw'r arbedion hynny wedyn ar gael i'r timau GIP fuddsoddi yn y gwasanaeth, ond yn hytrach fe'u cyfrifir fel arbedion yn eu priod adrannau ehangach. Gallai hyn fod yn rhwystr o ran cymell timau i wneud arbedion a mynd ar drywydd gwelliannau, yn enwedig os nad yw eu his-adrannau yn rhan weithredol o'r agenda wella ar gyfer GIP.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd yn cynnal adolygiadau GIP yn hwyr oherwydd diffyg capasiti a ffactorau allanol ond mae wedi bod yn gwneud cynnydd da gydag adolygiadau ôl-weithredol

57 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn gosod disgwyliadau perfformiad penodol o ran prydlondeb yn y broses GIP. Er enghraifft, ni ddylai'r amser rhwng asesiad GIP a chytuno ar becyn gofal fod yn fwy nag wyth wythnos, neu ddau ddiwrnod i glaf llwybr cyflym; ac ni ddylai'r amser rhwng derbyn gofal GIP yn y lle cyntaf a chael adolygiad o'ch anghenion gofal fod yn fwy na thri mis ac yn flynyddol wedi hynny.

- 58 Er bod y rhan fwyaf o waith GIP y Bwrdd lechyd yn cael ei gwblhau yn unol â disgwyliadau'r Fframwaith Cenedlaethol, mae'n gweld toriadau yn rheolaidd mewn lleiafrif o achosion. Er enghraifft, ers cyflwyno'r rhestr wirio, bu rhai achosion o oedi o ran aelodau tîm GIP yn dilyn canfyddiadau'r rhestr wirio sydd wedi arwain at gleifion yn aros deng wythnos sydd y tu hwnt i'r terfyn wyth wythnos.
- 59 Clywsom hefyd am enghreifftiau o becynnau cyllid y cytunwyd arnynt ond na chawsant eu hanfon yn ffurfiol at dîm cyllid GIP, gan olygu nad oedd darparwyr wedi cael eu talu am wythnosau, neu hyd yn oed fisoedd ar ôl lleoli claf mewn cartref gofal. O ystyried y diffyg cydgysylltu canolog mae'n anodd i'r Bwrdd lechyd reoli a lliniaru'r mater hwn.
- 60 Mae gan y Bwrdd lechyd yn rheolaidd nifer fach o adolygiadau hwyr. Gall adolygiadau hwyr fod yn gymhleth oherwydd ffactorau fel diffyg capasiti o fewn timau GIP, anawsterau yng ngofal y claf fel symudiadau i mewn ac allan o'r ysbty, a mynediad at weithwyr cymdeithasol.
- 61 Yn ystod y pandemig, roedd yn ofynnol i'r Bwrdd lechyd atal ei drefniadau arferol ar gyfer adolygu cleifion sy'n derbyn GIP, er iddo gynnal gwiriadau ysgafn ar ddiogelwch a llesiant. Roedd y gwiriadau hyn, a wnaed o bell, yn rhoi sicrwydd bod cleifion yn dal i dderbyn y gofal cywir.
- 62 O dan drefniant blaenorol, rheolwyd adolygiadau ôl-weithredol pob Bwrdd lechyd trwy brosiect cenedlaethol a gynhaliwyd gan Bowys. Pan ddaeth y prosiect hwn i ben ym mis Mawrth 2019 cymerodd pob Bwrdd lechyd gyfrifoldeb yn ôl am hawliadau ôl-weithredol yn eu hardal. Ail-etifeddodd y Bwrdd lechyd 41 o hawliadau ôl-weithredol bryd hynny. Ers hynny mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da gyda hawliadau ôl-weithredol a all gymryd cryn dipyn o amser i'w symud ymlaen oherwydd yr angen am adolygiad cymheiriaid, adolygiad annibynnol neu gyngor cyfreithiol. Ar adeg y gwaith maes, roedd y Bwrdd lechyd yn rhagweld y byddai wedi cwblhau ei ymchwiliadau i'r holl hawliadau ôl-weithredol erbyn diwedd 2020.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd yn annigonol

- 63 Mae'r fframwaith cenedlaethol yn nodi bod gan y Bwrdd lechyd gyfrifoldeb i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir trwy GIP yng nghyd-destun perfformiad darparwyr fel y byddai ganddo ar gyfer pob contract gwasanaeth. Mae'n nodi bod hyn yn cynnwys gwneud trefniadau clir o fewn prosesau prynu a chontractio ar gyfrifoldebau priodol.
- 64 Mae'r Cytundeb Cyn-leoli (PPA) ar gyfer cartrefi nyrsio yn cynnwys cyfrifoldebau darparwyr o ran sicrhau ansawdd, sy'n cynnwys cyflwyno arolwg hunanasesu chwarterol o gartrefi nyrsio sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr adrodd yn erbyn set o ddangosyddion gan gynnwys achosion o gwmpo ac unrhyw gyflwyniadau i Arolygiaeth Gofal Cymru. Darperir y wybodaeth o'r arolwg i dîm rheoli contractau'r Bwrdd lechyd ac fe'i trafodir mewn cyfarfodydd ansawdd rhwng timau rheoli contractau a thimau gweithredol. Defnyddir y wybodaeth o'r arolwg hefyd i lywio rhaglen arolygu flynyddol dreigl. Gwneir arolygiadau rhwng cynrychiolwyr contractio, nyrsys datblygu practis ac weithiau staff gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn edrych ar ystod o wybodaeth gan gynnwys yswiriant y cartrefi gofal a'u trefniadau hyfforddi staff.

- 65 Fodd bynnag, nid yw'r holl gartrefi gofal sydd wedi'u contractio gan y Bwrdd Iechyd wedi ymuno â'r PPA ac nid yw'n eglur a yw'r trefniadau a amlinellir uchod yr un mor berthnasol i'r rhai nad ydynt wedi ymuno. Er bod y trefniadau hyn yn ymwneud yn rhannol â chartrefi gofal, ar hyn o bryd nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer gofal cartref. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn derbyn sicrwydd ynghylch yr hyn y mae darparwyr gofal cartref yn ei ddarparu ac ar hyn o bryd nid yw'n gallu eu monitro. Ar adeg y gwaith maes, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar ddatblygu data a dynnwyd o'r Bwrdd Iechyd ac oddi mewn iddo ac o ffynonellau allanol fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Awdurdodau Lleol partner. Er y bydd hyn yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro darparwyr i raddau, dim ond lefel gyfyngedig o sicrwydd y gall ei ddarparu ynghylch ansawdd y gwasanaethau gofal a ddarperir i'w gleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio i ddatblygu metrigau ansawdd ar gyfer GIP i gefnogi prosesau monitro ac adrodd ar berfformiad (**Argymhelliad 6**).
- 66 Ers dechrau'r pandemig, bu rhai newidiadau i drefniadau sicrhau ansawdd GIP ar gyfer GIP. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno offeryn uwchgyfeirio a chymorth a system ffurfiol ar gyfer cyswllt dyddiol rhwng darparwyr cartrefi gofal, y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol i nodi problemau yn gyflym a chynnig cefnogaeth. Yn ddiweddar mae portffolio Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer GIP hefyd wedi cryfhau gyda chyfrifoldeb cliriach am sicrhau ansawdd a goruchwyllo. Fel rhan o hyn, mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn datblygu trefniadau llywodraethu sylfaenol gyda grwpiau gweithredol a llinellau adrodd.

Mae mwy o gyfleoedd i fuddsoddi gwariant GIP mewn ailalluogi i hyrwyddo annibyniaeth cleifion

- 67 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol (ar gyfer GIP) yn gefnogol i nodau ehangach Llywodraeth Cymru o atal a hefyd o hyrwyddo annibyniaeth. Mae'n nodi 'ni ddylid ystyried GIP yn drefniant parhaol o anghenraid. Dylid darparu gofal ar sail anghenion a dylid ei gynllunio fel ei fod yn cynyddu gallu ac annibyniaeth yr unigolyn i'r eithaf' (canllawiau GIP). Disgwylir y dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod mynediad digonol at wasanaethau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi byw'n annibynnol ac yn atal anghenion rhag dirywio. Felly mae'n hanfodol bod gan bartneriaid ystod dda a chynhwysfawr o wasanaethau craidd i ddarparu ar gyfer anghenion y boblogaeth bresennol ac yn y dyfodol.
- 68 Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn y Bwrdd Iechyd yn teimlo bod sawl claf yn derbyn GIP oherwydd nad oes darpariaeth gwasanaeth craidd ar gael iddynt oherwydd materion fel diffyg cyllid neu brinder o ran y gweithlu. Mae bylchau mewn gwasanaethau craidd yn cael effaith negyddol ar allu a/neu annibyniaeth rhai cleifion ac yn gwneud eu hanghenion yn fwy, ac o bosibl angen GIP. Un enghraifft a nodwyd yn aml oedd diffyg mynediad at nyrsys ardal. Gall nyrsio ardal ddarparu cefnogaeth sylweddol i gleifion i'w galluogi i gadw'n iach yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae bylchau mewn gwasanaethau i blant yn golygu bod yn rhaid i blant ag anghenion iechyd sylfaenol fynd 'y tu allan i'r ardal' i

dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt, sy'n cael effaith negyddol ar y claf ac yn arwain at gostau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.

- 69 Mae gan gryfhau mynediad at wasanaethau craidd y potensial i atal anghenion iechyd dwysach. Mae gan hyn fuddion o ran gofal a phrofiad cleifion ac mae'n cynhyrchu effeithlonrwydd gan fod llai o alw am wasanaethau GIP dwysach. Fel rhan o'r rhaglen trawsnewid cymunedol, mae timau ardal wedi bod yn gweithio i ddatblygu ystod ehangach o wasanaethau craidd a all gynorthwyo pobl i gynyddu eu hannibyniaeth i'r eithaf. Mae hyn weithiau wedi cynnwys swmp brynu gwelyau gollwg i asesu mewn cartrefi gofal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod lle i fwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau craidd a fydd yn sicrhau buddion tymor hwy i gleifion yn ogystal â'r system iechyd a gofal.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu rhaglen wella uchelgeisiol ar gyfer ei drefniadau GIP ond mae angen iddo sicrhau bod dull cynaliadwy o arwain y swyddogaeth bwysig hon

- 70 Ym mis Medi 2019, penododd y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ar gontract tymor penodol i oruchwylio gwelliant GIP. Gwnaed yr apwyntiad hwn i gryfhau arweinyddiaeth a goruchwyliaeth GIP ac rydym wedi nodi cyfeiriad teithio cadarnhaol ers y penodiad, er ein bod yn disgwyl y bydd angen y capasiti ychwanegol dros nifer o flynyddoedd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ffurfioli'r arweinyddiaeth o fewn y tîm GIP corfforaethol i gynnal gwelliant a goruchwyliaeth hirdymor (**Argymhelliad 8**).
- 71 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd grŵp gwella GIP hefyd yn ystod 2019. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer gwasanaethau Cynradd a Chymunedol ac mae'n cyfarfod yn fisol. Nod y grŵp yw sbarduno gwelliant parhaus a chefnogi trawsnewid tymor hwy, er bod ei ffocws hefyd ar gyflawni targedau arbedion ariannol. Mae presenoldeb yn y grŵp gwella GIP yn amrywiol er bod yr aelodaeth wedi esblygu i gynnwys ystod ehangach o gynrychiolwyr allweddol gan gynnwys cynrychiolwyr cyllid ac awdurdodau lleol.
- 72 Yn ystod ein gwaith maes, awgrymodd rhai o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw bod ffocws y grŵp gwella'n rhy ariannol ar hyn o bryd a bod angen mwy o bwyslais ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion cyfarfodydd blaenorol welliant cynyddol yng nghydbwysedd yr agenda.
- 73 Yn ogystal â'r Grŵp Gwella mae Grŵp Gweithredol GIP sydd hefyd yn cyfarfod yn fisol. Ei bwrpas yw casglu aelodau allweddol o staff i drafod materion eang gan gynnwys dysgu o achosion ac apeliadau yn y gorffennol, trafod unrhyw broblemau cyffredin fel systemau TG a thrafod perfformiad gan gynnwys perfformiad ariannol. Nododd rhai o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw fod y grŵp gweithredol yn ddefnyddiol wrth ddod â thimau ynghyd i feddwl ar y cyd, ond gallai aelodaeth y grŵp fod yn fwy cynhwysol oherwydd nad yw rhai staff bob amser yn clywed canlyniadau cyfarfodydd. Gellid mynd i'r afael â'r mater hwn trwy ailedrych ar aelodaeth y grŵp neu sicrhau bod gwybodaeth yn rhoadru'n well o'r trafodaethau a'r penderfyniadau yn y cyfarfod hwnnw.

- 74 Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gwella ei reolaeth ar GIP, a hynny wedi'i oruchwylio a'i yrru gan ei grwpiau gwella a gweithredol GIP. Roedd hyn yn cynnwys datblygu dau achos busnes ar gyfer GIP sy'n cyfuno i gwmpasu tair elfen allweddol, sef:
- mwy o afael a rheolaeth; bydd hyn yn gweld y Bwrdd Iechyd yn nodi ac yn defnyddio dull cyson ar draws y Bwrdd Iechyd wrth reoli GIP. Bydd hyn yn cynnwys datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol.
 - datblygu uned cymorth busnes; byddai'r tîm hwn yn gyfrifol am gaffael, contractio a monitro perfformiad. Bydd y tîm canolog hwn yn rheoli perthnasoedd â darparwyr mewn ffordd fwy cynlluniedig a rhagweithiol.
 - datblygu tîm achosion cymhleth: bydd y tîm ychwanegol hwn yn rheoli GIP ar ran cleifion cymhleth a chost uchel. Bydd hyn yn darparu un panel profiadol i reoli'r garfan o gleifion cymhleth sydd weithiau'n achosi tensiynau rhwng timau ardal ac is-adrannau gweithredol.
- 75 Mae'n werth nodi bod y Bwrdd Iechyd, yn ystod y pandemig, wedi gweithredu strwythur gorchymyn i alluogi gwneud penderfyniadau yn gyflym ac yn effeithiol ar gyfer materion brys sy'n ymwneud â COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys cell cartref gofal, gyda'r aelodau'n dod o ystod o bartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol. Deallwn fod y trefniant hwn yn unigryw ac wedi'i ganmol fel arfer da gan Lywodraeth Cymru. Mewn perthynas â'r pwyntiau uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â sefydlu ei swyddogaeth cymorth busnes gan greu tîm rheoli rhithwir a gwella gweithio mewn partneriaeth i gefnogi trefniadau contractio gwasanaethau cartrefi gofal. Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ymrwymedig i gynlluniau yn y ddau faes arall, ond mae'r cynnydd hwnnw wedi'i ohirio oherwydd y pandemig ac oedi o ran cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol newydd

Atodiad 1

Cynllun gweithredu

Nodir ein hargymhellion isod ar gyfer gwella'r trefniadau rheoli gweithredol sy'n cefnogi gwaith gweinyddu gofal iechyd parhaus. Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn ymwneud â'r amgylchedd ôl-COVID-19. Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r tabl hwn a sicrhau bod argymhellion yn cael eu cofnodi ar y system olrhain argymhellion corfforaethol, er mwyn galluogi'r pwyllgor archwilio i fonitro cynnydd.

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
18	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ystod o ddogfennau llywodraethu perthnasol a hygyrch ar gyfer rheoli GIP</p> <p>A1 Gan adeiladu ar y Fframwaith cenedlaethol newydd (pan gaiff ei gyhoeddi) ac offer ategol, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu set o ddogfennau canllaw allweddol i sicrhau rheolaeth gyson ar GIP ar draws ei dimau. Yn ogystal, dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol sy'n arwain aelodau'r tîm i ddefnyddio rhai offer GIP fel y rhestr wirio.</p>	Mae gan staff fynediad at ganllawiau lleol angenrheidiol a pherthnasol.	Do	<p>Pennaeth Comisiynu GIP</p> <p>Bydd set o ddogfennau canllawiau lleol allweddol yn cael eu cwblhau erbyn mis Tachwedd 2020 a bydd rhaglen waith yn cael ei llofnodi. Bydd dogfennau allweddol wedi'u cwblhau erbyn Mawrth 2021 a'u cwblhau'n llawn erbyn Mehefin 2021.</p> <p>Bydd yr holl ddogfennau ar gael ar wefan Mewnwyd y Bwrdd Iechyd a lle bo'n briodol ar dudalennau pwrpasol gwefan y Bwrdd Iechyd. Bydd dogfennaeth yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu pan gyhoeddir y Fframwaith GIP cenedlaethol newydd.</p>	Mehefin 2021

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
25	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno rhaglen hyfforddi gyson a hygyrch ar gyfer aelodau tîm GIP a'r rhai sy'n ymwneud â GIP</p> <p>A2 Yn dilyn datblygu canllawiau newydd y manylir arnynt yn A1 ynghyd â chyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol newydd (pan gaiff ei gyhoeddi), dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen hyfforddi gyson a hygyrch ar gyfer aelodau tîm GIP a'r rheini sy'n ymwneud yn rheolaidd â GIP (h.y. aelodau o'r Tîm Amlddisgyblaethol). Wrth ddatblygu'r rhaglen, gallai'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu'n ddefnyddiol â phartneriaid allweddol fel awdurdodau lleol a darparwyr.</p>	Mae staff sy'n teimlo'n wybodus ac wedi'u haddysgu am y broses GIP a sut i'w chymhwyso'n effeithiol	Do	<p>Pennaeth Comisiynu GIP</p> <p>Bydd rhaglen hyfforddi haenog yn cael ei dylunio erbyn 31 Mawrth 2021. Bydd hyn yn darparu'r sylfeini ar gyfer rhaglen hyfforddi dreigl sy'n adlewyrchu'r lefelau cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol rolau sy'n gysylltiedig â'r broses GIP ar system haenau 1-4. Bydd dyluniad y rhaglen yn cael ei drafod gyda phartneriaid gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli darparwyr.</p> <p>Bydd Lefel 1 yn hyfforddiant craidd ar-lein i holl staff gweithredol GIP.</p> <p>Bydd Lefel 2 yn cynnwys cefnogaeth GIP ychwanegol ar gyfer staff GIP allweddol fel cydgysylltwyr GIP.</p>	Mawrth 2021

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
				<p>Bydd Lefel 3 yn rhaglen hyfforddiant â ffocws ar gyfer staff clinigol mewn timau GIP gan gynnwys rhaglen sefydlu mewn tîm a digwyddiadau hyfforddi â chymorth corfforaethol.</p> <p>Bydd Lefel 4 yn canolbwyntio ar rannu dysgu rhwng staff GIP o dimau corfforaethol a thimau ardal, gan gynnwys myfyrio ar achosion a dysgu â thema wedi'i integreiddio i ymarfer fel dysgu o apeliadau ac achosion ôl-weithredol.</p>	
22	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu cysondeb ei strwythurau tîm GIP a sicrhau bod rolau'n cael eu cyfleu a'u deall yn glir</p> <p>A3 Dylai gwaith cyfredol y Bwrdd Iechyd i yrru cysondeb yn strwythur ei dimau GIP gynnwys gwaith i sicrhau bod disgrifiadau swydd yn adlewyrchu'r rolau sy'n ofynnol ac yn cael eu mynegi a'u deall yn glir gan aelodau tîm GIP presennol a newydd.</p>	Timau gweithredol sydd â'r gallu a'r statws cywir i weithio'n effeithiol.	Do	Bydd tîm corfforaethol GIP yn arwain y gwaith o ddylunio strwythurau craidd ar gyfer timau gweithredol ar lefel Ardal ac is-adrannol. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiadau swydd safonol a strwythurau y gall timau weithio tuag atynt yn lleol fel y mae cyfleoedd yn caniatáu o fewn cyfraith cyflogaeth.	Mawrth 2021

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
29	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno gweithdrefn uwchgyfeirio ffurfiol i ddatrys anghydfodau GIP rhwng ei dimau</p> <p>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd ffurfioli a gweithredu trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer anghydfodau GIP ar gyflymder. Dylai fod gweithdrefn glir y mae staff perthnasol yn ei deall yn eang ac un y gellir ei defnyddio i ddatrys anghydfodau mewnol yn gyflym fel y rhai sy'n ymwneud â pha dîm ddylai gymryd y cyfrifoldeb cyllidebol am gleifion GIP.</p>	Llai o densiynau rhwng timau gan fod staff yn gallu datrys anghydfodau yn gyflym ac yn hawdd trwy broses uwchgyfeirio y cytunwyd arni.	Do	<p>Pennaeth Comisiynu GIP mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Cyllid Ardal / Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu proses anghydfodau mewnol sy'n adlewyrchu'r tri cham yn y cytundeb PPA a ddefnyddir gyda darparwyr allanol. Bydd hwn yn cwmpasu'r bwrdd Iechyd cyfan ar draws timau Ardal a'r adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.</p>	Ebrill 2021
39	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio buddsoddi a datblygu ei dîm contractio a chomisiynu GIP</p> <p>A5 Nid yw rôl y Bwrdd Iechyd fel contractwr a chomisiynydd GIP wedi'i datblygu'n ddigonol sy'n achosi aneffeithlonrwydd a thensiynau ymhlith ei staff a'i ddarparwyr. Dylai'r Bwrdd Iechyd ailafael yn y gwaith a ddechreuodd</p>	Adnodd contractio a chomisiynu pwrpasol i ymgymryd â chomisiynu arfaethedig o ofal GIP sy'n effeithlon ac yn effeithiol.	Do	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt Contractio a Chyllid Gofal Iechyd</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr angen i ddatblygu 'Uned Gomisiynu' newydd gyda'r cyfrifoldeb am gomisiynu strategol a rheoli perfformiad yr holl leoliadau GIP a'r Cynllun Comisiynu Integredig. Mae'r</p>	Ebrill 2021

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
	yn 2019 i ddatblygu tîm contractio a chomisiynu GIP gyda'r capasiti a'r gallu i gynllunio a darparu GIP yn fwy effeithiol ac effeithlon.			Bwrdd Iechyd wedi cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu model 'Canolfan Fusnes' a fydd yn adeiladu ar yr egwyddorion hyn, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu achos busnes amlinellol.	
40	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gael adroddiadau cyson ar draws ei dimau GIP i'w alluogi i nodi arferion da a chyfleoedd dysgu</p> <p>A6 Mae'r tîm cyllid yn darparu ystod o wahanol adroddiadau ar gyfer pob tîm ardal ac is-adrannol GIP gweithredol sy'n cynhyrchu mewnwelediadau gwahanol ar berfformiad a gwariant. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd nodi meysydd arfer da neu gyfleoedd dysgu rhwng timau. Nid yw metrigau ansawdd ar gyfer GIP wedi'u datblygu'n ddigonol ychwaith. Gyda chydlynu a goruchwylio canolog, dylai timau ac is-adrannau GIP Gweithredol weithio gyda'i gilydd i archwilio a chytuno ar set o fetrigau ansawdd, ariannol a pherfformiad i reoli GIP yn effeithiol ac yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd.</p>	Goruchwylio perfformiad ar draws ystod o fetrigau ar gyfer gwahanol dimau GIP sy'n llywio rheolaeth barhaus a chynlluniau gwella ehangach y Bwrdd Iechyd.	Do	<p>Pennaeth Comisiynu GIP Mae offer ansawdd a pherfformiad GIP yn cael eu datblygu i gefnogi cyflwyno GIP. Maent yn adeiladu ar y dysgu yn ystod pandemig a'r newidiadau a weithredir mewn llwybrau gofal. Bydd metrigau ansawdd yn eglur yn y PPA diwygiedig y bydd yn ofynnol i ddarparwyr ei lofnodi fel cydran graidd o'r trefniadau cytundebol.</p> <p>Prif Arweinydd Cyllid ar gyfer GIP mewn partneriaeth â Phennaeth Comisiynu GIP Metrigau Cyllid - gyda mabwysiadu'r system BroadCare yn llawn, cydnabyddir y cyfle i wella effeithlonrwydd o ran adrodd a chytuno ar set safonol o adroddiadau metrigau Ariannol.</p>	<p>Mawrth 2021</p> <p>Chwefror 2021</p>

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
				Mae gwaith ar hyn trwy Grŵp Gweithredol GIP y Byrddau Iechyd eisoes wedi cychwyn a bydd unrhyw geisiadau am adroddiadau ansafonol i gefnogi'r gwahanol ofynion Gweithredol yn cael eu gwerthuso gan y Grŵp hwnnw i weld a ddylid eu mabwysiadu ac ychwanegu gwerth at bob Is-adran.	
48	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod ei dimau GIP yn defnyddio'r system TG BroadCare yn effeithiol ac yn gyson</p> <p>A7 Nid yw'r system TG BroadCare ar gyfer rheoli cleifion GIP yn gweithredu'n effeithiol eto yn y Bwrdd Iechyd oherwydd gwendidau yn ei weithrediad, diffyg hyfforddiant a diffyg cefnogaeth weinyddol. Er mwyn cynyddu gwerth y system wrth</p>	System cofnodion cleifion ddibynadwy ar gyfer GIP y gall staff ei defnyddio i lywio ei gynlluniau, monitro perfformiad a phenderfyniadau	Do	<p>Prif Arweinydd Cyllid ar gyfer GIP mewn partneriaeth â Phennaeth Comisiynu GIP gyda chefnogaeth yr uwch ddadansoddwr Systemau Gwybodeg.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn gweithredu rhaglen optimeiddio BroadCare. Bydd y rhaglen optimeiddio yn sicrhau:</p>	Chwefror 2021

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
	<p>reoli GIP i'r eithaf, dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gofnodion anghyflawn a nodwyd trwy gapasiti tymor byr ychwanegol; • sicrhau bod y system wedi'i sefydlu'n gywir ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gyda therminoleg y system yn cyfateb i derminoleg y broses GIP • sicrhau bod timau GIP wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar ddefnyddio'r system. • Sicrhau bod y tîm cyllid corfforaethol yn defnyddio'r system yn effeithiol. 			<p>a) Dogfennaeth rheoli achosion cyson, rhaglen cymorth cymheiriaid a gwell ansawdd data yn nhimau gweithredol GIP.</p> <p>b) Cysoni ariannol a throsglwyddo i system feddalwedd rheoli achosion BroadCare i awdurdodi a thalu pecynnau gofal.</p>	

Para	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriedir	Cytunwyd	Swyddog cyfrifol a gweithredoedd	Dyddiad cwblhau
69	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd Ffurfioli Arweinyddiaeth o fewn y Tîm GIP Corfforaethol</p> <p>A8 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gryfhau arweinyddiaeth o fewn ei dîm GIP corfforaethol yn ystod 2019, mae'r trefniadau hynny ar sail dros dro ar hyn o bryd. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio datblygu arweinyddiaeth tymor hwy i sicrhau gwelliant a goruchwyliaeth ganolog gadarn o'i reolaeth GIP.</p>	Goruchwyliaeth a rheolaeth hirdymor cryfach	Do	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol.</p> <p>Cytunwyd ar gynllun trosglwyddo i atgyfnerthu tîm arweinyddiaeth corfforaethol GIP. Bydd y tîm hwn nawr yn goruchwyllo GIP a'r sector cartrefi gofal gan adrodd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol sylweddol o 1 Ionawr 2021.</p>	Ionawr 2021

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.